Llysgennad Oxbridge yng Nghymru

# Cyrhaeddiad myfyrwyr Cymru a'r ymgeiswyr sy'n cael eu derbyn yn Rhydychen a Chaergrawnt: y dystiolaeth

## Crynodeb gweithredol estynedig

J Padley, S Gallagher
Mehefin 2014

Mae’r papur tystiolaeth, ‘Cyrhaeddiad myfyrwyr Cymru a’r ymgeiswyr sy’n derbyn lleoedd yn Rhydychen a Chaergrawnt’, a gyflwynwyd ym mis Medi 2013, ac a gwblhawyd ym mis Mehefin 2014, yn rhoi cyflwyniad manwl o’r data a ddefnyddiwyd a’r dadansoddiadau a luniwyd gan Lysgennad Oxbridge hyd yma wrth ystyried cyfraddau’r ymgeiswyr o Gymru sy’n gwneud cais i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt ac sy’n cael eu derbyn. Mae’n ddarn o waith sylweddol, sy’n cael ei ategu gan y crynodeb gweithredol estynedig hwn, er mwyn amlygu ei ganfyddiadau hollbwysig ac awgrymu sut y dylid datblygu’r rhain.

ISBN digidol 978 1 4734 1664 2
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22064

## Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Canfyddiadau hollbwysig** | **2** |
| **Canfyddiadau llai** | **7** |
| **Casgliadau** | **9** |

## Canfyddiadau hollbwysig[1]

Yn ystod y cyfnod a aseswyd gan y papur, 'Cyrhaeddiad myfyrwyr Cymru a'r ymgeiswyr sy'n cael eu derbyn yn Rhydychen a Chaergrawnt: y dystiolaeth', y blynyddoedd academaidd 2007-08 i 2011-12, roedd cyfraddau llwyddo ceisiadau ymgeiswyr o Gymru i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn is i'r ddwy brifysgol, o gymharu ag ymgeiswyr o Loegr a Gogledd Iwerddon:

### Cyfraddau llwyddo ceisiadau i Gaergrawnt a Rhydychen yn ôl rhanbarthau'r DU, 2008-2012[2]

| Cylch UCAS | Caergrawnt | | | Rhydychen | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Cymru | Lloegr | Gogledd Iwerddon |
| **2008** | 24.9% | 28.7% | 33.5% | 21.2% | 27.8% | 24.8% |
| **2009** | 20.6% | 26.3% | 32.9% | 16.3% | 25.6% | 25.0% |
| **2010** | 22.4% | 26.7% | 33.0% | 17.0% | 21.9% | 17.5% |
| **2011** | 23.1% | 27.0% | 29.7% | 15.5% | 22.3% | 23.4% |
| **2012** | 22.3% | 27.6% | 28.6% | 17.7% | 23.0% | 21.1% |
| **Cyfartaledd** | **22.6%** | **27.3%** | **31.5%** | **17.4%** | **24.0%** | **22.3%** |

Mae'n bwysig ystyried y cyfraddau llwyddo hyn yng nghyd-destun nifer y myfyrwyr a ymgeisiodd ac a gawsant eu derbyn.

[1] Mae'r ystadegau a ddefnyddir drwy'r Crynodeb hwn, oni nodir yn wahanol, wedi eu darparu gan Swyddfa Dderbyniadau Prifysgol Caergrawnt, Swyddfa Dderbyniadau Prifysgol Rhydychen, ac adrannau perthnasol Llywodraeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth y DU, a Llywodraeth Cymru.  Oni nodir yn wahanol, mae'r ffigurau a nodir ar gyfer yr holl sectorau addysgol perthnasol – y sector a gynhelir, y sector annibynnol, a'r sector addysg bellach – ac eithrio yn achos Gogledd Iwerddon, lle mae'r ffigurau perfformio a gyflwynir ar gyfer y sector ysgolion a gynhelir yn unig. Pan fo cyfanswm yr ymgeiswyr TGAU a Safon Uwch wedi'i nodi, mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ymgeiswyr a safodd un neu ragor o'r cymwysterau dan sylw yn y cyfnod hwnnw.

[2] Cafwyd y data o'r ddolen ganlynol http://www.study.cam.ac.uk/undergraduate/apply/statistics/ a http://www.ox.ac.uk/about_the_university/facts_and_figures/undergraduate_admissions_statistics/

**Nifer y myfyrwyr a ymgeisiodd i Gaergrawnt a Rhydychen ac a gafodd eu derbyn, yn ôl rhanbarth y DU, 2008-2012**[3]

| Cylch UCAS | Caergrawnt | | | | | | Rhydychen | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y ceisiadau o Gymru | Nifer y derbyniadau o Gymru | Nifer y ceisiadau o Loegr | Nifer y derbyniadau o Loegr | Nifer y ceisiadau o Ogledd Iwerddon | Nifer y derbyniadau o Ogledd Iwerddon | Nifer y ceisiadau o Gymru | Nifer y derbyniadau o Gymru | Nifer y ceisiadau o Loegr | Nifer y derbyniadau o Loegr | Nifer y ceisiadau o Ogledd Iwerddon | Nifer y derbyniadau o Ogledd Iwerddon |
| **2008** | 241 | 60 | 9404 | 2697 | 185 | 62 | 397 | 84 | 9262 | 2578 | 125 | 31 |
| **2009** | 287 | 59 | 10006 | 2635 | 222 | 73 | 486 | 79 | 9989 | 2555 | 140 | 35 |
| **2010** | 290 | 65 | 9452 | 2528 | 200 | 66 | 436 | 74 | 11438 | 2510 | 154 | 27 |
| **2011** | 247 | 57 | 8961 | 2415 | 212 | 63 | 476 | 74 | 11180 | 2494 | 167 | 39 |
| **2012** | 269 | 60 | 9040 | 2499 | 199 | 57 | 424 | 75 | 11004 | 2536 | 128 | 27 |
| **Cyfartaledd** | **267** | **60** | **9373** | **2555** | **204** | **64** | **444** | **77** | **10575** | **2535** | **143** | **32** |

O'r data hyn, rydym yn gallu gweld - yn ddisgwyliadwy - fod nifer y myfyrwyr sy'n cael eu derbyn o ranbarth yn codi gyda nifer y myfyrwyr a ymgeisiodd o'r rhanbarth hwnnw. Mae ymgeiswyr o Ogledd Iwerddon yn perfformio'n gymharol dda wrth wneud cais i Gaergrawnt, ac mae ymgeiswyr o Gymru yn perfformio'n gymharol wael wrth wneud cais i Gaergrawnt a Rhydychen.
Pam hynny?

Yr ateb tebygol yw cyrhaeddiad. Yn achos nifer o feini prawf allweddol mewn perthynas â'r cyrhaeddiad academaidd gorau, mae perfformiad myfyrwyr yng Nghymru ar draws y cyfnod a asesir yn is na pherfformiad myfyrwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon:

[3] Cafwyd y data o’r ddolen ganlynol http://www.study.cam.ac.uk/undergraduate/apply/statistics/ a http://www.ox.ac.uk/about_the_university/facts_and_figures/undergraduate_admissions_statistics/

### Cyfartaledd perfformiad TGAU yn ôl rhanbarth, 2008-2012

| Rhanbarth | Nifer y myfyrwyr a safodd yr arholiadau | Nifer y myfyrwyr a gafodd 5A* + | % 5A* + |
|---|---|---|---|
| Cymru | 35459 | 1351 | 3.8% |
| Lloegr | 634910 | 27474 | 4.3% |
| Gogledd Iwerddon | 23025 | 1200 | 5.2% |

Mae'r tabl hwn yn dangos bod canran y myfyrwyr a gafodd bump A* neu fwy yn yr arholiadau TGAU yn llai yng Nghymru nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, er mai bach yw'r gwahaniaeth. Mae cael pump A* yn arwydd o botensial myfyrwyr i fynd i Oxbridge am fod y cyfartaledd o ymgeiswyr i'r ddwy brifysgol yn cael rhwng pump a chwech A* yn eu harholiadau TGAU.

### Cyfartaledd perfformiad Safon Uwch yn ôl rhanbarth y DU, 2008-2012[4]

| Rhanbarth | Nifer y myfyrwyr a safodd yr arholiadau | Nifer y myfyrwyr a gafodd AAA + | % y myfyrwyr a gafodd AAA + | Nifer y myfyrwyr a gafodd A*AA + | % y myfyrwyr a gafodd A*AA + | Nifer y myfyrwyr a gafodd A*A*A + | % y myfyrwyr a gafodd A*A*A + | Nifer y myfyrwyr a gafodd A*A*A* + | % y myfyrwyr a gafodd A*A*A* + |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 13206 | 1221 | 9.2% | 773 | 5.9% | 384 | 2.9% | 157 | 1.2% |
| Lloegr | 255365 | 32577 | 12.8% | 24032 | 9.3% | 12983 | 5.0% | 5630 | 2.2% |
| Gogledd Iwerddon | 10986 | 1741 | 15.9% | 1127 | 9.9% | 559 | 4.9% | 236 | 2.1% |

Mae'r tabl hwn yn dangos bod canrannau'r myfyrwyr sy'n cael y canlyniadau gorau yn eu harholiadau Safon Uwch yng Nghymru hefyd yn is yng Nghymru nag yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r bwlch yn llawer mwy amlwg nag yn yr arholiadau TGAU. Mae mesur Safon Uwch fel hyn yn bwysig gan mai canlyniadau AAA ac A*AA yw'r safon isaf ar gyfer cael eich derbyn gan Rydychen a Chaergrawnt yn y drefn honno. Er gwybodaeth, yn y cylch UCAS yn 2012, o'r myfyrwyr hynny a geisiodd am le yng Nghaergrawnt, cafodd 83%

---

[4] Dim ond o ddiwedd 2009-10 y daeth hi'n bosibl cael gradd A* mewn arholiadau Safon Uwch, felly dim ond ar gyfer 2010-12 y mae'r ffigurau ar gyfer A*..

ohonynt ganlyniadau A*A*A neu'n well, a chafodd 60% ohonynt A*A*A*[5]. Yn y Cylch UCAS yn 2012, cafodd 63% o fyfyrwyr a ymgeisiodd am le yn Rhydychen A*A*A neu'n well, a chafodd 40% ohonynt A*A*A*.[6]

Mae patrwm amlwg yma. Mae'r bwlch rhwng perfformiad myfyrwyr Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn yr arholiadau TGAU yn fach, ond mae'r bwlch yn fwy sylweddol yn yr arholiadau Safon Uwch, ac mae llai o fyfyrwyr o Gymru yn gwneud ceisiadau llwyddiannus i Gaergrawnt a Rhydychen. Gan fod y bwlch ym mherfformiad myfyrwyr Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n cael y canlyniadau gorau mewn arholiadau Safon Uwch llawer yn fwy sylweddol nag mewn arholiadau TGAU, mae'n debyg mai canlyniadau Safon Uwch sy'n creu'r gwahaniaeth. Fodd bynnag, nid yw'r gyfres ddata a ddefnyddiwyd yn y papur hwn yn ddigonol i brofi a yw'r patrwm hwn yn fwy na chyd-ddigwyddiad. I archwilio yn fwy manwl, mae angen casglu'r data canlynol (os yw ar gael) ar gyfer pob ymgeisydd, yn ôl rhanbarth a blwyddyn, o'r ddwy brifysgol:

- Cyfartaledd y cyrhaeddiad TGAU wrth wneud cais
- Ar gyfer Caergrawnt yn unig, cyfartaledd y sgoriau modiwlau unedau yn yr arholiadau UG wrth wneud cais.[7]
- Ar gyfer Rhydychen yn unig, cyfartaledd y cyrhaeddiad mewn profion derbyniadau penodol i'r pwnc yn ystod camau cynnar y broses ymgeisio.[8]
- Cyfartaledd cyrhaeddiad ymgeiswyr llwyddiannus mewn arholiadau Safon Uwch wrth wneud cais.
- Cyfartaledd cyrhaeddiad ymgeiswyr aflwyddiannus mewn arholiadau Safon Uwch ar ddiwedd y cylch UCAS perthnasol.

Byddai'r data ychwanegol hwn, dros gyfnod hwy nac a ddadansoddwyd yn flaenorol, o bosibl,[9] yn ein galluogi i lunio casgliadau mwy sylweddol.  Os nad yw ymgeiswyr o Gymru yn cael canlyniadau tebyg i'w cyfoedion yn Lloegr a Gogledd Iwerddon mewn arholiadau cyhoeddus a phrofion derbyn, yna mae'n debygol iawn mai cyrhaeddiad yw'r broblem allweddol sy'n rhwystro ceisiadau o Gymru rhag llwyddo. Os yw ymgeiswyr o Gymru yn cael canlyniadau tebyg neu well na'r myfyrwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon mewn arholiadau cyhoeddus a phrofion derbyn, yna mae'n rhaid edrych y tu hwnt i gyrhaeddiad er mwyn ceisio esbonio pam y mae ymgeiswyr Cymru yn gymharol aflwyddiannus. Mae'n bosibl y

[5] http://www.study.cam.ac.uk/undergraduate/publications/docs/admissionsstatistics2012.pdf, t. 9.
[6] http://www.ox.ac.uk/document.rm?id=2690, t. 22.
[7] Yn unigryw o fewn y sector AU yn y DU, mae Caergrawnt yn adolygu tri UMS gorau ar gyfartaledd (Gwyddorau) neu'r tri UMS mwyaf perthnasol (Celfyddydau a'r Dyniaethau) Safon UG ei ymgeiswyr, oherwydd mae'r Brifysgol wedi nodi bod y rhain yn ddangosydd cryf o berfformiad dilynol myfyrwyr mewn graddau yng Nghaergrawnt.
[8] Yn wahanol i'r defnydd a wneir gan Gaergrawnt o UMS cyfartalog arholiadau Safon Uwch, mae ymgeiswyr i Rydychen  yn gorfod cwblhau profion mynediad ar bynciau penodol cyn y cyfweliadau sydd, ochr yn ochr â'r canlyniadau TGAU yn ffurfio sail ar gyfer llunio'r rhestr fer ar gyfer cyfweliadau a phenderfyniadau ar dderbyniadau.
[9] 2001-2002 I 2011-12, er enghraifft, a fyddai'n cyfrif am y twf yn nefnydd Caergrawnt o UMS cyfartalog, a defnydd Rhydychen o brofion derbyn.

bydd anawsterau posibl yn cynnwys: cymorth addysgol, uchelgais, argaeledd pynciau a chyfuniadau, gofynion geirda UCAS, i ba raddau y mae'r unigolyn wedi paratoi, ac o ran adolygu'n benodol, ysgogiad a gweithgareddau allgwricwlaidd. Efallai y byddant hefyd yn cynnwys elfennau o broses dderbyniadau Caergrawnt a Rhydychen, nad ydynt o bosibl yn asesu ymgeiswyr Cymru yn briodol. O ran yr un blaenorol, byddai mwy o waith i'w wneud yng Nghymru. O ran yr olaf, byddai mwy o waith i'w wneud yng Nghaergrawnt a Rhydychen. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid ydym yn gwybod ymhle i ganolbwyntio. Mae angen rhagor o ymchwil.

Fel atodiad ar gyrhaeddiad, dirywiodd canrannau'r myfyrwyr Safon Uwch yng Nghymru a gafodd ganlyniadau AAA neu well, A*AA neu well, ac A*A*A* neu well rhwng 2008 a 2012: [10] 9.4% i 8.6%, 6.1% i 5.5%, a 3.2% i 2.7%, yn y drefn honno. Doedd dim newid yng nghanran y myfyrwyr Safon Uwch yng Nghymru a gafodd A*A*A* neu well, ar gyfartaledd o 1.2%. Mae'r duedd gyffredinol hon o ddirywio yn y canlyniadau Safon Uwch gorau wedi digwydd tra bo cynnydd yng nghanran myfyrwyr TGAU Cymru a gafodd bump A* neu well yn ystod yr un cyfnod, o 3.5% i 4.1%. Mae'r tueddiadau cyferbyniol hyn yn peri pryder, yn enwedig gan nad oes patrwm tebyg yn digwydd yn Lloegr na Gogledd Iwerddon. Mae angen rhagor o ystyriaeth yma hefyd.

[10] Gweler n.4

## Canfyddiadau llai

Mae 'Cyrhaeddiad myfyrwyr Cymru a'r ymgeiswyr sy'n derbyn lleoedd yn Rhydychen a Chaergrawnt: y dystiolaeth' yn awgrymu nad oedd y math o sefydliad, yn nhermau'r sector a gynhelir, neu'r sector annibynnol, yn ffactor yng nghyfraddau llwyddiant cymharol isel ymgeiswyr o Gymru i Gaergrawnt a Rhydychen yn ystod 2008-2012. Mae'n wir fod ymgeiswyr o'r sectorau annibynnol yng Nghymru a'r DU yn perfformio'n fwy llwyddiannus ym mhrosesau derbyniadau Caergrawnt a Rhydychen, o gymharu â'u cymheiriaid yn y sector a gynhelir, mae'n debygol oherwydd bod nifer gymesur uwch o ymgeiswyr cystadleuol yn ôl cymhwyster yn y sector annibynnol. Fodd bynnag, nid yw ymgeiswyr o'r sector annibynnol yng Nghymru yn perfformio cystal ym mhrosesau derbyniadau Caergrawnt a Rhydychen, o gymharu ag ymgeiswyr o sector annibynnol y DU, ac yn yr un modd, nid yw ymgeiswyr o'r sector a gynhelir yng Nghymru yn perfformio cystal ym mhrosesau derbyniadau Caergrawnt a Rhydychen, o gymharu ag ymgeiswyr o'r sector a gynhelir yn y DU. Yn syml, mae'r sector a gynhelir a'r sector annibynnol yng Nghymru yn gymharol ataliedig yng nghyd-destun derbyniadau Caergrawnt a Rhydychen.

Mae sampl o gyfraddau llwyddo Caergrawnt a Rhydychen mewn naw o Awdurdodau Lleol cynrychioliadol o Gymru [11] yn ystod 2008-2012 yn awgrymu bod myfyrwyr o Gymru sy'n cael eu derbyn i'r prifysgolion yn cynrychioli lleoliadau cyson o bob rhan o'r wlad. Mae'n ymddangos nad yw'r lleoliad ffisegol a chymdeithasol-economaidd yng Nghymru yn cael unrhyw effaith amlwg ar siawns ymgeisydd o lwyddo.

O'r dadansoddiad o'r cyfraddau llwyddo a derbyn ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn 2011-12, a dadansoddiad manylach, ar lefel sefydliadol, o'r sampl o naw ALl ar gyfer yr un flwyddyn, mae'n amlwg bod myfyrwyr sy'n perfformio i lefel uchel yng Nghymru a'r ymgeiswyr o Gymru sy'n cael eu derbyn yng Nghaergrawnt a Rhydychen yn aml yn teimlo'n ynysig. Er enghraifft, o'r 81 o ysgolion yn y sector a gynhelir yn y sampl o naw ALl, roedd gan 20 (25%) ohonynt un myfyriwr a oedd wedi cyflawni A*A*A ar lefel Safon Uwch ar ddiwedd 2011-12, ac roedd naw (11%) wedi cyflawni dau. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg iawn o'r dadansoddiad bod yr ynysiad hwn o dalent academaidd yn rhwystro ceisiadau llwyddiannus, er bod goblygiadau addysg yn galw am ystyriaeth bellach.

Mae'n werth nodi, o'r 1,371 o fyfyrwyr Safon Uwch yn y 37 (46%) o ysgolion o'r sampl o naw ALl lle nad oedd unrhyw fyfyrwyr wedi cyflawni A*A*A ar lefel Safon Uwch ar ddiwedd 2011-12, dim ond pum ymgeisydd – 0.004% o 1,371 – a dderbyniodd gynigion gan Rydychen. Ni dderbyniodd unrhyw un gynigion gan Gaergrawnt. Unwaith eto, yn absenoldeb data pellach, ymddengys bod hyn yn writ tystiolaeth sy'n dangos y cysylltiad rhwng cyrhaeddiad a derbyniadau.

[11] Caerdydd, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen, ac Wrecsam.

Roedd ‘Cyrhaeddiad myfyrwyr Cymru a’r ymgeiswyr sy’n derbyn lleoedd yn Rhydychen a Chaergrawnt: y dystiolaeth’ yn ceisio adolygu ALl cynrychioliadol o Gymru yn erbyn cymaryddion y tu allan i Gymru, er mwyn cwestiynu a oedd y tueddiadau a ganfuwyd yng Nghymru yn digwydd yn benodol yng Nghymru neu a oeddent yn ffenomena gyffredinol. Cafwyd ymgais i gynnal adolygiad o’r fath, ond mynegwyd pryderon cryf y byddai ei ganlyniadau yn cael eu haflunio gan ffactorau lleol na ellir eu hystyried yn gyson yn y data sydd ar gael i ni.  Felly, mae cwestiwn ynghylch dilysrwydd yr ymarferiad.

## Casgliadau

Ymddengys bod cyswllt cryf rhwng cyfraddau cyrhaeddiad isel yng Nghymru yn yr arholiadau cyhoeddus lefel uchaf, a pha mor berthnasol yw cyfraddau llwyddiant Cymru i geisiadau Caergrawnt a Rhydychen.  Er hynny, nid yw hyn yn cael ei brofi'n bendant yn 'Cyrhaeddiad myfyrwyr Cymru a'r ymgeiswyr cael eu derbyn yn Rhydychen a Chaergrawnt: y dystiolaeth'.  Cyn belled ag y bo modd, mae angen mynd i'r afael â'r diffyg prawf hwn.  Yr ydym yn argymell felly bod angen gwneud gwaith pellach ar y cyswllt rhwng cyfraddau cyrhaeddiad a llwyddiant, fel y disgrifir uchod.